**BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU**
**17/05/2024**

Yn bresennol:

Aelodau â Phleidlais – Y Cynghorwyr:- Jason McLellan (Cyngor Sir Ddinbych), Mark Pritchard (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam), Charlie McCoubrey (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), Llinos Medi Huws (Cyngor Sir Ynys Môn) a Dyfrig Siencyn (Cyngor Gwynedd) (Cadeirydd).

Ymgynghorwyr – Dafydd Evans (Grŵp Llandrillo Menai), Askar Sheibani (Bwrdd Cyflawni Busnes) a Chris Drew (Prifysgol Bangor).

Prif Swyddogion – Dylan Williams (Cyngor Sir Ynys Môn), Rhun ap Gareth (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), Neil Cockerton (Cyngor Sir y Fflint), David Fitzsimon (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam), Graham Boase (Cyngor Sir Ddinbych) a Sioned Williams (Cyngor Gwynedd).

Swyddogion yn bresennol -

Awdurdod Lletya – Iwan G Evans (Swyddog Monitro), Sian Pugh (Pennaeth Cyllid Cynorthwyol) a Sioned Mai Jones (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

Uchelgais Gogledd Cymru - Alwen Williams (Cyfarwyddwr Portffolio), Hedd Vaughan-Evans (Pennaeth Gweithrediadau), Stuart Whitfield (Rheolwr Rhaglen Ddigidol), David Mathews (Rheolwr Rhaglen Tir ac Eiddo), Robyn Lovelock (Rheolwr Rhaglen Cynllun Twf) ac Elgan Roberts (Rheolwr Rhaglen Ynni).

Sylwedyddion – Wendy Boddington (Sylwedydd, Llywodraeth Cymru) a Gareth Ashman (Llywodraeth y DU).

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan:-

- Y Cynghorydd Ian B. Roberts (Cyngor Sir y Fflint);
- Yr Athro Edmund Burke (Prifysgol Bangor) gyda Chris Drew yn dirprwyo;
- Ian Bancroft (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam) gyda David Fitzsimon yn dirprwyo;
- Yr Athro Maria Hinfelaar (Prifysgol Wrecsam);
- Dewi A. Morgan (Swyddog Cyllid Statudol) gyda Sian Pugh yn dirprwyo;
- Dafydd Gibbard (Cyngor Gwynedd) gyda Sioned Williams yn dirprwyo.

Croesawodd y Cadeirydd y dirprwyon i'r cyfarfod.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

## 3. MATERION BRYS

Ni chodwyd unrhyw faterion brys.

**4. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 15 Mawrth 2024 fel rhai cywir.

**5. SEFYLLFA ALLDRO REFENIW A CHYFALAF Y BWRDD UCHELGAIS AR GYFER 2023/24**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Bennaeth Cyllid Cynorthwyol yr Awdurdod Lletya.

**PENDERFYNWYD**

**Nodwyd a derbyn:**

1. **Adroddiad alldro refeniw y Bwrdd Uchelgais ar gyfer 2023/24 (Atodiad 1), sy'n cynnwys defnyddio £561,454 o Grant Bargen Twf Gogledd Cymru i ddangos sefyllfa niwtral ar gyfer y flwyddyn.**
2. **Sefyllfa cronfeydd y Bwrdd Uchelgais (Atodiad 2).**
3. **Adolygiad Cyfalaf Diwedd Blwyddyn ar 31 Mawrth 2024 (Atodiad 3).**

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Hysbysu'r Bwrdd Uchelgais am ei sefyllfa ariannol ar gyfer refeniw a chyfalaf 2023/24.

**TRAFODAETH**

Tywyswyd yr aelodau drwy'r adroddiad oedd yn darparu trosolwg o sefyllfa alldro refeniw a chyfalaf 2023/24. Cyfeiriwyd at Atodiad 1 gan dynnu sylw at golofn olaf y tabl sy'n dangos y gorwariant neu'r tanwariant fesul pennawd. Nodwyd mai'r tanwariant terfynol ar y pennawd Swyddfa Rheoli Portffolio yw £75,000, sy'n bennaf oherwydd trosiant staff yn ystod y flwyddyn. Adroddwyd bod y pennawd Gwasanaethau Cefnogol yn dangos tanwariant o £39,000.

Nodwyd bod y tanwariant terfynol ar y pennawd Cydbwyllgor yn £41,000, sydd yn sgil tanwariant ar y penawdau Cefnogaeth Gyfreithiol Allanol, y Ffioedd Cyllidol Allanol a'r Bwrdd Cyflawni Busnes. Mynegwyd mai'r tanwariant terfynol ar y pennawd Prosiectau yw £129,000. Eglurwyd bod y gwariant o dan y pennawd Grantiau yn cynnwys cynlluniau sy'n cael eu hariannu gan grantiau penodol gan Lywodraeth Cymru. Ychwanegwyd bod y rhan Trosglwyddiadau i gronfeydd yn dangos cyfraniadau llog y partneriaid ar gyfer 2023/24.

Cyfeiriwyd at ail dudalen Atodiad 1 ble rhestrir y prif ffrydiau incwm ar gyfer 2023/24 a dangosir y sefyllfa alldro net terfynol ar gyfer 2023/24, sef tanwariant o £460,000. Eglurwyd bod hyn yn dangos cynnydd yn y tanwariant o £341,000 a ragwelwyd yn yr adolygiad diwedd Rhagfyr. Nodwyd bod y tanwariant yn deillio o lwyddiant y Swyddfa Rheoli Portffolio gyda'u cais rhanbarthol i'r Gronfa Ffyniant Gyffredin yn ogystal â gostyngiad mewn gwariant ar sawl pennawd yn y gyllideb.

Gofynnwyd i'r Bwrdd gymeradwyo swm gostyngedig o £561,000, o'i gymharu â'r gyllideb wreiddiol o £1,000,000 o grant y Cynllun Dwf i'w ddefnyddio i ariannu'r gwariant refeniw yn 2023/24 er mwyn gadael sefyllfa niwtral ar gyfer y flwyddyn.

Cyfeiriwyd at Atodiad 2 oedd yn dangos y symudiadau yn y cronfeydd yn ystod y flwyddyn a'r balansau ar 31 Mawrth 2024. Nodwyd mai cyfanswm y gronfa wrth gefn ar 31 Mawrth 2024 oedd £278,000 a bod £67,000 wedi ei neilltuo ar gyfer cyllideb 2024/25 a £61,000 pellach ar gyfer cyllideb 2025/26. Adroddwyd mai balans y gronfa prosiectau ar 31 Mawrth 2024 oedd £152,000 a balans y gronfa llog ar 31 Mawrth 2024 oedd £4.7 miliwn. Nodwyd

bod cynnydd sylweddol yma oherwydd y llog a dderbyniwyd ar y Grant Cynllun Twf yn ystod y flwyddyn.

I gloi cyfeiriwyd at sefyllfa gyfalaf y Grant Cynllun Twf ar gyfer 2023/24. Nodwyd mai'r prif wahaniaeth rhwng y gyllideb Cyfalaf a gymeradwywyd gan y Bwrdd ym mis Mawrth yw'r gwariant o £0.75m ar y prosiect Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter ac mae'r gyllideb o 2.15% ar gyfer cyllido refeniw yn 2023/24 wedi gostwng i £0.56m i adlewyrchu'r ffigyrau alldro refeniw terfynol. Ychwanegwyd bod grant cyfalaf ychwanegol o £423,000 wedi ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru ar gyfer Uwchraddiad Ffeibr Llawn Leol.

Gwnaethpwyd sylw bod y Bwrdd Uchelgais wedi elwa o gyllid o'r gronfa ffyniant gyffredin a gofynnwyd beth fydd y canlyniadau i gyllidebau pe bai'r arian yma ddim yn cael ei dderbyn.

- Mewn ymateb nodwyd bod incwm o'r gronfa ffyniant gyffredin wedi ei gynnwys yng nghyllideb 2024/25, hyd at ddiwedd Rhagfyr 2024 a bod y gyllideb wedi ei seilio ar y derbyniadau yma hyd at ddiwedd y flwyddyn galendr. Ychwanegwyd, o bersbectif ariannu adnoddau a staffio, bod sicrwydd yma hyd at fis Mawrth 2026; ond ni ellir dweud ymhellach na hynny heb wybod beth fydd dyfodol y gronfa.

Gofynnwyd am eglurhad pellach ar y ffigyrau Hyfforddiant a Theithio gan fynegi y dylai'r Bwrdd Uchelgais wneud eu gorau i gadw'r costau hyn mor isel â phosib drwy gynnal popeth sy'n bosib yn rhithiol.

- Mewn ymateb eglurwyd bod y ffigyrau Hyfforddiant, Teithio a Chynhaliaeth yn berthnasol i staff y Bwrdd Uchelgais yn ystod y flwyddyn. Amlygwyd bod staff y Bwrdd Uchelgais yn ceisio teithio cyn lleied ag sy'n bosib ond bod lleoliadau safleoedd yn bodoli ar draws Gogledd Cymru a bod angen mynychu'r rhain yn achlysurol.
- Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Portffolio fod y Bwrdd Uchelgais yn dîm rhanbarthol a bod disgwyliad i'r Bwrdd Uchelgais fod yn weladwy mewn digwyddiadau yng Nghaerdydd neu Lundain sy'n golygu bod angen teithio i'r lleoliadau hyn.
- Credwyd ei bod yn hanfodol cynrychioli Gogledd Cymru a dylanwadu ar y sector fusnes mewn digwyddiadau o'r fath a theimlwyd y dylai'r Bwrdd Uchelgais fod yn weladwy tu allan i'r rhanbarth.

Cyfeiriwyd at dudalen 22 o'r Rhaglen gan ofyn am eglurhad pellach ar y prosiect Porth Caergybi a'i gost o £34.47 miliwn rhwng 2024 a 2027.

- Mewn ymateb eglurwyd mai proffil gwariant am y cyfnod yw'r cyfanswm o £34.47 miliwn gan nodi nad oedd sicrwydd llwyr ar gyfer y prosiect hwn.
- Mewn ymateb i'r cwestiwn os yw'r ffigyrau hyn yn mynd i gynyddu ymhellach nodwyd mai rhagfynegiadau o'r gwariant yw'r ffigyrau ond ni all y cyllid sydd ar gael i'r prosiectau gynyddu. Nodwyd pe bai cynnydd yng ngwerth y prosiectau yna'r disgwyliad yw y bydd noddwr y prosiectau yn ariannu'r costau ychwanegol hynny.
- Gofynnwyd am gopïau o'r ffigyrau os yw'r Bwrdd Uchelgais wedi ymrwymo £34.47 miliwn ar gyfer y prosiect Porth Caergybi. Nodwyd bod pob prosiect yn seiliedig ar gyflwyno a chwblhau achos busnes llwyddiannus. Ychwanegwyd na fydd unrhyw benderfyniad ar wariant na chyllid yn cael ei wneud nes bydd achos busnes llawn wedi ei dderbyn.
- Eglurwyd and yw'r achos busnes wedi ei dderbyn eto am y prosiect Porth Caergybi. Serch hyn, cadarnhawyd y byddai'r Cyfarwyddwr Portffolio yn hapus darparu rhagor o wybodaeth i'r aelod.

Holwyd ynghylch prosiect Stiwdio Kinmel y cyfeiriwyd ato yn Atodiad 3, gan nodi bod y sefyllfa bellach wedi newid. Gofynnwyd am ddiweddariad trwy e-bost.

- Mynegwyd y bydd y prosiectau newydd yn cael eu trafod fel rhan o Adroddiad Perfformiad a Risgiau Chwarter 4 sydd wedi ei gynnwys ar Raglen y cyfarfod hwn felly bydd trafodaeth ar y prosiect hwn dan yr eitem nesaf.

## 6. CYNLLUN TWF GOGLEDD CYMRU – ADRODDIAD PERFFORMIAD A RISGIAU CHWARTER 4

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Pennaeth Gweithrediadau ac ymhelaethodd y Rheolwyr Rhaglen ar uchafbwyntiau'r rhaglenni unigol.

**PENDERFYNWYD**

**Nodwyd Adroddiad Perfformiad Chwarter 4 a Cofrestr Risg y Portffolio wedi'i diweddaru.**

**Cymeradwywyd cyflwyno Adroddiad Perfformiad Chwarter 4 i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, ynghyd â phwyllgorau craffu'r awdurdodau lleol.**

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

I gyflwyno adroddiad Chwarter 4 (Ionawr i Mawrth) y Cynllun Twf a Chofrestr Risg y Portffolio wedi'i diweddaru.

Mae adrodd chwarterol ar gynnydd yn erbyn Cynllun Twf Gogledd Cymru yn un o ofynion Cytundeb Terfynol y Cynllun Twf. Yn dilyn ystyriaeth gan Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, caiff yr adroddiadau eu rhannu gyda Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU a phwyllgorau craffu'r awdurdodau lleol.

**TRAFODAETH**

Rhedwyd drwy adroddiad Perfformiad a Risg Chwarter 4 y Cynllun Twf a derbyniwyd gyflwyniad gan y rheolwyr rhaglen oedd yn darparu crynodeb o'r cynnydd efo'u rhaglenni unigol. Derbyniwyd diweddariad ar y Rhaglen Ddigidol ble nodwyd bod yr achos busnes amlinellol ar gyfer Safleoedd a Choridorau Cysylltiedig Allweddol '4G' bellach wedi ei gymeradwyo gan y Bwrdd Uchelgais Economaidd. Cyfeiriwyd at y prosiect LPWAN gan nodi bod angen gwneud rhagor o waith ar yr achos economaidd cyn sôn am benodiad Annog Cyf. gan y Bwrdd Uchelgais Economaidd.

- Holwyd am benodiad Annog Cyf. ac os oes cyhoeddiad neu lansiad ar y gweill. Cadarnhawyd y bydd lansiad cyhoeddus gan y cwmni yn yr wythnos nesaf a'u bod yn gweithio ar y negeseuon a chydbwysedd rhanbarthol. Adroddwyd y bydd cyhoeddusrwydd ar y cyfryngau cymdeithasol a bydd cyswllt uniongyrchol efo'r cymunedau gwledig. Nodwyd y bydd y Swyddfa Rheoli Prosiect yn diweddaru'r Bwrdd pan fydd datblygiad.

Darparwyd diweddariad ar y Rhaglen Ynni Carbon isel oedd yn egluro sefyllfa pob prosiect megis Hwb Hydrogen a Cydnerth ymysg eraill hyd at ddiwedd chwarter 4. Nodwyd nad yw prosiect Trawsfynydd wedi ei gynnwys gan nad oedd llawer i'w adrodd hyd at ddiwedd Chwarter 4. Ychwanegwyd bod y prosiect hwn yn parhau dan statws coch oherwydd yr ansicrwydd i'r prosiect gael ei wireddu o fewn cyfnod y Cynllun Twf. Nodwyd bod y Swyddfa Rheoli Prosiect mewn trafodaethau gyda Chwmni Egino a bydd yn gofyn am eglurhad gan y Llywodraeth wrth ddechrau mapio opsiynau posib i'r Bwrdd eu hystyried os bydd y prosiect yn cael ei dynnu 'nol o'r Cynllun Twf.

- Mynegwyd siom am y prosiect Trawsfynydd a phryderwyd bod penderfyniadau gwleidyddol yn cael eu gwneud gan y Llywodraeth yn hytrach na phenderfyniadau

ar sail ffeithiol neu dechnolegol. Nodwyd y bydd ystyriaethau pellach ynglŷn â beth fydd yn cymryd lle'r prosiect Trawsfynydd pe bai'r prosiect yn cael ei dynnu 'nol.

Adroddwyd ar y Rhaglen Tir ac Eiddo ble darparwyd diweddariad ar y prosiectau megis Parc Bryn Cegin, Bangor a Stiwdio Kinmel. Nodwyd bod y Bwrdd Uchelgais yn parhau i aros am gyfarfod wyneb yn wyneb efo Stiwdio Kinmel ers i'r cwmni gael ei roi yn nwylo'r gweinyddwyr dechrau Ebrill; ers y cyhoeddiad maent wedi bod mewn cyswllt e-bost efo'r Cwmni i geisio gweld beth fydd y camau nesaf.

Derbyniwyd y sylwadau a ganlyn:

- Mynegwyd awydd i gael cyfarfod efo Stiwdio Kinmel cyn gynted ag y bo modd er mwyn derbyn eglurhad o'u safbwynt a darganfod sut i symud ymlaen. Pwysleisiwyd bod angen eglurder am y sefyllfa ynghylch ymddatodiad y cwmni.
- Cadarnhawyd bod y Swyddfa Rheoli Prosiect yn pwyso am gyfarfod a byddant yn diweddaru'r Bwrdd o unrhyw ddatblygiadau.
- Gofynnwyd am ddiweddariad ar Borth Wrecsam, yn benodol ynghylch yr asesiad traffig a'r manylion sydd yn ymwneud â'r prosiect hwn. Mynegwyd y byddai'n dda derbyn y wybodaeth ddiweddaraf gan nad oedd aelodau'r Bwrdd wedi cael eu diweddaru.
- Credwyd bod adroddiad y 'WelTAG 0' wedi cael ei gwblhau a darparwyd y cyllid gan Lywodraeth Cymru drwy Drafnidiaeth i Gymru. Nodwyd bod yr asesiadau cychwynnol wedi eu cwblhau ond nad oedd diweddariad pellach ar hyn o bryd.
- Mynegwyd dryswch os oedd y gwaith wedi ei gwblhau neu beidio. Credwyd bod diffyg dealltwriaeth o union be sy'n digwydd. Cydnabuwyd ei bod yn fater sy'n ymglymu Cyngor Wrecsam, y Bwrdd Uchelgais a Llywodraeth Cymru.
- Gofynnwyd, os yw'r gwaith wedi ei gwblhau, i'w anfon i Arweinydd Cyngor Wrecsam. Pwysleisiwyd ei bod yn bwysig bod y Bwrdd yn cael eu briffio a'n derbyn gwybodaeth. Sicrhawyd bod gwaith yn digwydd ar hyn o bryd a bydd David Fitzsimon yn rhoi diweddariad i Arweinydd Cyngor Wrecsam ar ôl y cyfarfod.
- Gofynnwyd am ddiweddariad ysgrifenedig am sefyllfa Stiwdio Kinmel. Credwyd ei bod yn bwysig i'r aelodau gael gwybodaeth amserol o unrhyw ddatblygiadau a beth yw'r camau sy'n cael eu cymryd yn hytrach nag aros tan gyfarfod nesaf o'r Bwrdd Uchelgais Economaidd i dderbyn diweddariad.
- Cadarnhawyd y bydd y Bwrdd yn cael eu diweddaru cyn y cyfarfod nesaf a bydd gwybodaeth yn cael ei ddarparu dros e-bost pe bai cyfarfod yn cael ei gynnal efo Stiwdio Kinmel.
- Holwyd beth yw'r broses gyda phrosiectau o'r fath ble mae ansicrwydd am eu dyfodol ac ar ba bwynt fydd y Bwrdd yn cael gwybodaeth o'r sefyllfa.
- Nodwyd bod y Swyddfa Rheoli Prosiect yn ceisio deall beth fydd goblygiadau i'r prosiect o ran symud ymlaen. Ategwyd pe bai newidiadau i'r cynnig gwreiddiol roedd y Bwrdd wedi ymrwymo iddo yna byddai yn fater i'r Bwrdd benderfynu os dylid cefnogi'r cynnig diwygiedig neu beidio. Ychwanegwyd ar hyn o bryd mae'r Swyddfa Rheoli Prosiect yn ceisio deall beth yw'r problemau a sut y gallai'r rheini effeithio ar y prosiect.

Darparwyd diweddariad ar y Rhaglen Bwyd-amaeth a thwristiaeth a'r Rhaglen Arloesi mewn gweithgynhyrchu gwerth uchel oedd yn cynnwys diweddariad ar brosiect Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter sydd bellach yn cael ei adeiladu ac ar y trywydd iawn. I gloi derbyniwyd diweddariad gan y Rheolwr Rhaglen Ddigidol ar gofrestr risg y Portffolio ble cyfeiriwyd at dair risg. Roedd y risg gyntaf yn ymwneud a chapasiti ac adroddwyd bod y risg yma wedi lleihau ers y Chwarter diwethaf yn dilyn recriwtio staff i'r tîm Swyddfa Rheoli Prosiect.

Nodwyd bod y ddau risg nesaf, sef Rheoli Cymhorthdal a Mudo i'r Cydbwyllgor Corfforedig, yn risgiau newydd sydd wedi eu nodi ar y gofrestr risg. Ymhelaethwyd bod y risg Mudo i'r

Cydbwyllgor Corfforedig yn risg posib a all gael effaith ar adnoddau. Nodwyd bod y Swyddfa Rheoli Prosiect yn cadw llygaid ar y risg yma sydd yn weddol isel ar hyn o bryd.

Mynegwyd sylw nad oedd y daith o fudo'r Bwrdd Uchelgais Economaidd i'r Cydbwyllgor Corfforedig yn glir i rai Cyrff sy'n rhan o'r Bwrdd. Gwnaethpwyd cais i drefnu cyflwyniad i'r Partneriaid sydd tu allan i Lywodraeth Leol er mwyn derbyn rhagor o wybodaeth am y Cydbwyllgor Corfforedig a'i oblygiadau i bartneriaid sydd ynghlwm a'r Cynllun Twf. Cynigiwyd darparu cyflwyniad i gyfarfod o'r Bwrdd Uchelgais Economaidd er mwyn rhoi diweddariad ar y daith ac oblygiadau sefydlu'r Cydbwyllgor Corfforedig. Croesawyd yr awgrym yma a chytunwyd i'r Cyfarwyddwr Portffolio raglennu hynny.

Mynegwyd pryder gan gynrychiolydd Prifysgol Bangor ynghylch y broses lywodraethu ar gyfer adnewyddu contractau sy'n cymryd sawl mis a phryderwyd bod y gofynion llywodraethu yn mynd i arafu'r broses o drosglwyddo. Adroddodd y Swyddog Monitro bod cais wedi ei yrru i'r partneriaid yn gofyn am wybodaeth ar eu prosesau penderfynu. Amlygwyd bod grŵp prosiect yn cynllunio sut i gyfathrebu materion y Cydbwyllgor Corfforedig a'r broses o drosglwyddo a'r oblygiadau posib. Nodwyd bod gwaith ar droed i friffio ac ymgynghori ar y broses a nodwyd bod gwaith manwl ar gyfathrebu ac ymgysylltu yn digwydd ar hyn o bryd. Cydnabuwyd bod y lefel ymwybyddiaeth am y Cydbwyllgor Corfforedig yn amrywio ar draws sectorau a bod angen cyfarch hynny.

**7. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol am y rhesymau a nodir isod:**

- **Eitem 10:** Paragraff 14 o Atodiad 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (Gwybodaeth ynglŷn â thrafodion ariannol neu fusnes unrhyw berson penodol (yn cynnwys yr awdurdod sydd yn dal y wybodaeth hynny)). Mae cynnwys yr eitem yn cynnwys gwybodaeth gyfrinachol a masnachol sensitif am y prosiect Cyn Ysbyty Gogledd Cymru gan gynnwys gwybodaeth am risgiau'r prosiect. Mae hyn yn berthnasol i Jones Bros.

**8. CYN YSBYTY GOGLEDD CYMRU, DINBYCH – ACHOS BUSNES LLAWN**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Rheolwr Rhaglen Tir ac Eiddo.

**PENDERFYNWYD**

**Cymeradwywyd Achos Busnes Llawn ar gyfer prosiect Cyn Ysbyty Gogledd Cymru.**

**Awdurdodwyd Cyfarwyddwr y Portffolio, mewn ymgynghoriad â'r Swyddog Adran 151 a'r Swyddog Monitro i gytuno a mynd i gytundeb ariannu gyda Jones Brothers Ruthin Development Holdings Ltd i gyflawni'r Prosiect.**

**Nodwyd bydd y cytundeb ariannu yn cael ei wneud ar ôl cwblhau'r camau ym mharagraff 7.7 yn foddhaol mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd, Is-gadeirydd, Swyddog Adran 151 a'r Swyddog Monitro.**

**Mynegwyd diolch i bawb sydd wedi cyfrannu at lwyddiant y prosiect hwn.**

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Ceisio cymeradwyaeth y Bwrdd i'r Achos Busnes Llawn ar gyfer Prosiect Cyn Ysbyty Gogledd Cymru.

Cymeradwyodd y Bwrdd yr Achos Busnes Amlinellol ar gyfer y prosiect ar 2 Chwefror 2024. Cynhaliodd y prosiect Adolygiad Parth 3 ym mis Ebrill 2024 ac fe dderbyniodd radd Ambr gan y tîm adolygu gyda 9 o'r argymhellion. Mae'r argymhellion hyn wrthi'n cael eu hadolygu gan Uchelgais Gogledd Cymru, Cyngor Sir Ddinbych a Jones Bros, gyda'r bwriad o gytuno ar gamau gweithredu rhwng y partïon.

Jones Brothers Ruthin Development Holdings Ltd fydd derbynwyr y grant a byddant yn comisiynu Jones Brothers Ruthin Civil Engineering Limited i ymgymryd â'r gwaith Gwedd 1 gan ddefnyddio'r isgontractwyr cymeradwy sydd ganddynt pan fo'r angen. Mae'r cwmni nawr yn cyhoeddi Achos Busnes Llawn i'r Bwrdd er mwyn gwneud penderfyniad Buddsoddi terfynol.

**TRAFODAETH**

Trafodwyd yr adroddiad.

Dechreuodd y cyfarfod am 09:30yb a daeth i ben am 11:15yb.

**Cadeirydd**